OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A489 a'r A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mehefin 2025* |
| *Yn dod i rym* | *13 Mehefin 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn o gefnffordd yr A489 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A489 a'r A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Mehefin 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A489 & A483 Trunk Roads (Newtown Bypass, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 June 2025* |
| *Coming into force* | *13 June 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the length of the A489 trunk road and the relevant length of the A483 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A489 & A483 Trunk Roads (Newtown Bypass, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2025 and this Order comes into force on 13 June 2025.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth a chefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu i gael mynediad i eiddo priodol;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 13 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mehefin 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services, in connection with the works giving rise to this Order or to access appropriate properties;

"the trunk roads" ("*y cefnffyrdd*") means the A489 Newtown to Aberystwyth trunk road and the A483 Swansea to Manchester trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 13 June 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**7.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 4 June 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A489 o'r enw Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys sy'n ymestyn o ochr ddwyreiniol Cylchfan David Davies hyd at ochr orllewinol Cylchfan Laura Ashley.

Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys sy'n ymestyn o ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Laura Ashley hyd at ochr dde-orllewinol Cylchfan Pryce Jones.

Y darn o gefnffordd yr A483 o'r enw Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys sy'n ymestyn o ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pryce Jones hyd at ochr dde-orllewinol Cylchfan Robert Owen.

## SCHEDULE

The length of the A489 trunk road known as Newtown Bypass, Powys that extends from the eastern side of the David Davies Roundabout to the western side of the Laura Ashley Roundabout.

The length of the A483 trunk road known as Newtown Bypass, Powys that extends from the north-eastern side of the Laura Ashley Roundabout to the south-western side of the Pryce Jones Roundabout.

The length of the A483 trunk road known as Newtown Bypass, Powys that extends from the north-eastern side of the Pryce Jones Roundabout to the south-western side of the Robert Owen Roundabout.